

Llunio gwybodaeth ar gyfer gosod cynhyrchion pwrpasol allan

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynhyrchu darnau gosod allan a marcio cynhyrchion plaen a chrwn pwrpasol un neu fwy o'r grwpiau dilynol allan: cynhyrchion saernïaeth bensaernïol, cynhyrchion saernïaeth olwynion (adeiladu cerbydau) a chynhyrchion dodrefnu siopau (pren, cynhyrchion pren a/neu ddeunyddiau cyfansawdd a/neu fetel), dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol a dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar

Mae'r safon hon ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes galwedigaethol. Coed a gall gweithwyr, goruchwylwyr a rheolwyr ei defnyddio.

Llunio gwybodaeth ar gyfer gosod cynhyrchion pwrpasol allan

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 dehongli'r wybodaeth a roddir am y gwaith a'r adnoddau i gadarnhau ei pherthnasedd

P2 cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a phenodol a chanllawiau swyddogol i wneud eich gwaith a chynnal arferion gwaith diogel ac iach

P3 dewis nifer yr adnoddau sydd eu hangen ac ansawdd gofynnol yr adnoddau hynny ar gyfer y dulliau gweithio

P4 cydymffurfio â gweithdrefnau'r sefydliad i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas

P5 cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir yn y contract i wneud y gwaith yn effeithlon yn unol â'r gofynion

P6 cwblhau'r gwaith o fewn yr amser a neilltuwyd yn unol â'r rhaglen waith

Llunio gwybodaeth ar gyfer gosod cynhyrchion pwrpasol allan

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Maen Prawf Perfformiad 1

Dehongli gwybodaeth

K1 pa weithdrefnau a ddatblygwyd gan y sefydliad i adrodd am **wybodaeth** amhriodol ac **adnoddau** anaddas, yn ogystal â'u cywiro, a sut i'w gweithredu

K2 pa fathau o **wybodaeth** sydd ar gael, beth yw eu ffynhonnell a sut i'w dehongli

K3 beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer datrys **problemau** â'r **wybodaeth** a pham mae'n bwysig eu dilyn

Maen Prawf Perfformiad 2

Arferion gwaith diogel

K4 faint o **wybodaeth** y mae'n rhaid i weithwyr ei deall i gydymffurfio â'r **ddeddfwriaeth** berthnasol a chyfredol a **chanllawiau swyddogol** a sut i'w chymhwyso

K5 pa fathau o **ddiffoddwyr tân** sydd ar gael a sut a phryd i'w defnyddio

K6 sut y dylid ymateb i **argyfyngau** a phwy ddylai ymateb

K7 beth yw **gweithdrefnau diogelwch** y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol

K8 beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny

K9 pam, pryd a sut y dylid defnyddio **cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch**

K10 sut i weithredu arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn cydymffurfio â'r **ddeddfwriaeth** gyfredol a **chanllawiau swyddogol**

Maen Prawf Perfformiad 3

Dewis adnoddau

K11 beth yw nodweddion, ansawdd, defnyddiau, cynaliadwyedd, cyfyngiadau a diffygion yr **adnoddau** a sut y dylid cywiro diffygion

K12 sut y dylid defnyddio'r **adnoddau** a sut i adrodd am unrhyw **broblemau** sy'n gysylltiedig â nhw

Llunio gwybodaeth ar gyfer gosod cynhyrchion pwrpasol allan

K13 beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis **adnoddau**, pam y cawsant eu datblygu a sut i'w defnyddio

K14 pa **berygion** sy'n gysylltiedig â'r **adnoddau** a'r **dulliau gweithio** a sut i ddelio â'r rhain

Maen Prawf Perfformiad 4

Lleihau'r risg o ddifrod

K15 sut i **ddiogelu gwaith** rhag difrod a phwrpas diogelu

K16 pam y dylid **gwaredu gwastraff** yn ddiogel a sut i wneud hyn

Maen Prawf Perfformiad 5

Bodloni gofynion y contract

K17 sut i ymgymryd â **dulliau gweithio** i fodloni'r gofynion a sut i adrodd am **broblemau**

K18 sut i **gynnal a chadw** offer a chyfarpar

Maen Prawf Perfformiad 6

Amser a **neilltuwyd**

K19 beth yw'r **rhaglen** i'r gwaith gael ei wneud o fewn yr amser amcangyfrifedig a neilltuwyd a pham y dylid cadw at derfynau amser

Llunio gwybodaeth ar gyfer gosod cynhyrchion pwrpasol allan

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Maen Prawf Perfformiad 1

1 dehongli lluniadau, gofynion, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau risg, rhestrau deunyddiau a gwybodaeth gweithgynhyrchwyr sy'n gysylltiedig â'r gwaith sydd i'w wneud

Maen Prawf Perfformiad 2

2 osgoi risg drwy gydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am o leiaf bedwar o'r dilynol

2.1 dulliau gweithio

2.2 defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch yn ddiogel

2.3 defnyddio cyfarpar mynediad yn ddiogel

2.4 defnyddio, storio a thrin deunyddiau, offer a chyfarpar yn ddiogel

2.5 risgiau penodol i iechyd

Maen Prawf Perfformiad 3

3 dewis adnoddau sy'n gysylltiedig â'ch gwaith eich hun

3.1 deunyddiau, cydrannau a gosodiadau

3.2 offer a chyfarpar

Maen Prawf Perfformiad 4

4 diogelu'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas rhag difrod

5 cynnal lle gweithio clir a thaclus

6 gwaredu gwastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol

Maen Prawf Perfformiad 5

7 dangos sgiliau mesur, marcio allan a lluniadu

8 defnyddio a chynnal a chadw offer llaw a phŵer ac offer marcio a phrofi

9 llunio gwybodaeth ar gyfer gosod a marcio cynhyrchion pwrpasol un o'r grwpiau dilynol allan a rhestrau deunyddiau ar eu cyfer yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir

Llunio gwybodaeth ar gyfer gosod cynhyrchion pwrpasol allan

9.1 grŵp o gynhyrchion saernïaeth bensaernïol (o leiaf dair o'r eitemau dilynol): setiau drysau, drysau, ffenestri sy'n agor, unedau a/neu ddodrefn, paneli a/neu gladin, grisiau (syth a throellog), canllawiau, balwstradau, cynhyrchion saernïaeth sy'n cynnwys gwydr, metel, ffabrigau, argaen neu laminiad, cynhyrchion saernïaeth sy'n plygu unwaith a chynhyrchion saernïaeth sy'n plygu ddwywaith

9.2 grŵp o gynhyrchion saernïaeth olwynion (adeiladu cerbydau): olwynion (ac o leiaf ddwy o'r eitemau dilynol: drysau, fframiau, cerbydau ffrâm bren, siafftau, stepiau, cerbydau ffrâm bren sy'n plygu unwaith a cherbydau ffrâm bren sy'n plygu ddwywaith)

9.3 grŵp o gynhyrchion dodrefnu siopau (pren, cynhyrchion pren a/neu ddeunyddiau cyfansawdd a/neu fetel) (o leiaf dair o'r eitemau dilynol): drysau, fframiau, leininau, fframiau blaenau siopau gan gynnwys elfennau cysylltiedig, unedau, dodrefn, paneli a/neu gladin fframio, cynhyrchion sy'n cynnwys gwydr, ffabrigau, argaen, grisiau (syth a throellog), canllawiau neu falwstradau, cynhyrchion dodrefnu siopau sy'n plygu unwaith, cynhyrchion dodrefnu siopau sy'n plygu ddwywaith, soffitiau a phalisau

Maen Prawf Perfformiad 6

10 cwblhau'ch gwaith eich hun o fewn yr amser amcangyfrifedig a neilltuwyd i ddiwallu anghenion galwedigaethau eraill a/neu'r cleient

Llunio gwybodaeth ar gyfer gosod cynhyrchion pwrpasol allan

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Gwaredu gwastraff

1 cyfrifoldebau amgylcheddol, gweithdrefnau'r sefydliad, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

Argyfyngau

2 ymateb y gweithiwr i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad sefydliadol a sgiliau personol

2.1 tanau, gollyngiadau ac anafiadau

2.2 argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol

Diffoddwyr tân

3 Dŵr, CO₂, ewyn, powdr a'u defnyddiau

Peryglon

4 y rhai hynny a nodir drwy asesiad risg, fel rhan o ddull gweithio, yng ngwybodaeth dechnegol gweithgynhyrchwyr ac mewn rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

Cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch

5 y cyfarpar a nodir gan yr egwyddorion atal ar gyfer defnydd galwedigaethol, mathau o gyfarpar a phwrpas pob math, sefyllfaoedd gwaith a'r amgylchedd gwaith cyffredinol

5.1 mesurau diogelu ar y cyd

5.2 cyfarpar diogelu personol

5.3 cyfarpar diogelu anadlol

5.4 system awyru a gwacáu leol

Gwybodaeth

6 lluniadau, gofynion, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau risg, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, cyfarwyddiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig, brasluniau, data electronig, canllawiau swyddogol (lles anifeiliaid), safonau cydrannau a rheoliadau adeiladu cyfredol sy'n gysylltiedig â llunio gwybodaeth ar gyfer gosod cynhyrchion pwrpasol allan

Deddfwriaeth a chanllawiau swyddogol

7 mae hyn yn ymwneud â chyfrifoldebau'r gweithiwr am ddamweiniau posibl, peryglon i iechyd a'r amgylchedd wrth weithio yn y gweithle, o dan lefel y tir, mewn lleoedd cyfyng, ar uchder, ag offer a chyfarpar ac â deunyddiau a sylweddau ac wrth symud a

Llunio gwybodaeth ar gyfer gosod cynhyrchion pwrpasol allan

storio deunyddiau drwy eu codi a'u cario a defnyddio cyfarpar codi mecanyddol
**

Cynnal-a-chadw**

8 gofal y gweithiwr am offer llaw a phŵer

Dulliau gweithio

9 cymhwyso gwybodaeth i sicrhau arferion, gweithdrefnau a sgiliau gwaith diogel ac iach mewn perthynas â'r dull, y maes gwaith a'r deunyddiau a ddefnyddir i

9.1 gosod a marcio cynhyrchion pwrpasol allan a llunio rhestrau deunyddiau ar eu cyfer

9.2 cynhyrchu setiau drysau, drysau, ffenestri llithro, unedau, dodrefn, paneli a chladin sy'n syth mewn cynlluniau a gweddlluniau

9.3 cynhyrchu cerbydau ffrâm bren, siafftau ac olwynion (saernïaeth olwynion yn unig)

9.4 cynhyrchu grisiau, canllawiau a balwstradau syth a throellog

9.5 cynhyrchu cynhyrchion sy'n plygu unwaith a dwywaith drwy ddatblygu'r eitemau uchod yn geometregol

9.6 cymryd dimensiynau'r safle a'r gweithle

9.7 mesur uniadau sy'n gysylltiedig â'r cynnyrch a'r dulliau adeiladu

9.8 archebu deunyddiau

9.9 nodi, penderfynu a rhoi gwybod pryd mae angen sgiliau a gwybodaeth arbenigol

9.10 nodi gofynion penodol ar gyfer strwythurau o ddiddordeb arbennig, adeiladwaith traddodiadol (cyn 1919) ac arwyddocâd hanesyddol

9.11 nodi a bodloni gofynion ansawdd ar gyfer gosod

9.12 gweithio gyda pheiriannau, o'u cwmpas ac yn agos iawn atynt

9.13 defnyddio offer marcio a phrofi ac offer llaw a phŵer

9.14 archebu deunyddiau

9.15 gweithio ar uchder

Llunio gwybodaeth ar gyfer gosod cynhyrchion pwrpasol allan

9.16 defnyddio cyfarpar mynediad

10 gwaith tîm a chyfathrebu

11 anghenion galwedigaethau eraill sy'n gysylltiedig â llunio gwybodaeth ar gyfer gosod cynhyrchion pwrpasol allan

Problemau

12 y rhai hynny sy'n codi o wybodaeth, adnoddau a dulliau gweithio

12.1 eich awdurdod eich hun i unioni sefyllfa

12.2 gweithdrefnau adrodd y sefydliad

Rhaglen

13 mathau o dargedau cynhyrchiant ac amserlenni

14 y ffordd y mae amseroedd yn cael eu hamcangyfrif

15 gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer adrodd am amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith

Diogelu gwaith

16 diogelu gwaith rhag difrod a achosir gan weithgareddau cyffredinol yn y gweithle, galwedigaethau eraill a thywydd garw

Adnoddau

17 deunyddiau, cydrannau a chyfarpar mewn perthynas â niferoedd, ansawdd, meintiau a chynaliadwyedd mathau safonol a/neu arbenigol o

17.1 pren, cynhyrchion pren, deunyddiau cyfansawdd, darnau gosod allan papur, gwydr, plastig, ffabrig, metel, gwaith haearn ac adlynion

17.2 ffitiadau a gosodiadau

17.3 offer marcio a phrofi ac offer llaw a phŵer

18 cadarnhau bod yr adnoddau a'r deunyddiau'n cydymffurfio â'r gofynion gan gynnwys gofynion sy'n ymwneud ag addasrwydd, lleithder a pharhad

Llunio gwybodaeth ar gyfer gosod cynhyrchion pwrpasol allan

19 dulliau o gyfrifo niferoedd, hyd, arwynebedd a gwastraff sy'n gysylltiedig â'r dull a'r weithdrefn ar gyfer llunio gwybodaeth ar gyfer gosod cynhyrchion pwrpasol allan

Gweithdrefnau diogelwch

20 safle, gweithle, cwmni, gweithiwr a cherbydau

Llunio gwybodaeth ar gyfer gosod cynhyrchion pwrpasol allan

Datblygwyd gan	Construction Skills
Dyddiad cymeradwyo	29 Ebr 2019
Dyddiad Adolygu Dangosol	29 Ebr 2022
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	ConstructionSkills / SgiliauAdeiladu
RCU gwreiddiol	COSVR634
Galwedigaethau perthnasol	Gwaith Coed a Saernïaeth
Cyfes/Set	Sgiliau Treftadaeth (Adeiladu), Galwedigaethau Coed (Adeiladu)
Geiriau Allweddol	Marcio allan; Saernïaeth bensaernïol; Rhestrau deunyddiau; Saernïaeth olwynion; Adeiladu cerbydau; Dodrefnu siopau; Pren